Newyddlen GISDA Nadolig 2011

Gair gan Siân

Mae Medi'r 1af, fy niwrnod cyntaf yn GISDA yn teimlo'n bell i ffwrdd erbyn hyn. Bum yn hynod lwcus o gael cyfnod anwythiad estynedig gyda'r cyn Prif Weithredwr, Mair Richards. Bu mis Tachwedd yn fis emosiynol iawn yn GISDA gyda Mair yn ymddeol ar ôl 21 mlwydd o wasanaeth. Trefnwyd parti ymddeoliad gan aelodau'r staff ar ei chyfer. Hoffwn ddiolch i Mair am ei harweiniad a'i chefnogaeth wrth iddi drosglwyddo'r cyfrifoldebau i fi.

Credaf ei bod yn gyfnod cyffrous iawn i unrhyw fudiad trydydd sector ar hyn o bryd. Mae hi ar un llaw yn un o'r cyfnodau mwyaf ansefydlog yn economaidd ond gyda hyn daw cyfleoedd o weithio mewn ffyrdd gwahanol a chydweithio gyda phartneriaethau eraill. Does dim amheuaeth bod darparwyr gwasanaeth yn fwy cystadleuol ond bydd hyn yn sicrhau'r gwasanaeth o'r ansawdd gorau ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn GISDA yn edrych ymlaen yn hyderus am y cyfnod nesaf ac yn awyddus i weithio'n rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Byddwn yn parhau i gydweithio gydag asiantaethau eraill yn ogystal â gwasanaethau o'r sector gyhoeddus.

Mae'r bobol ifanc wedi bod yn hynod brysur dros y misoedd diwethaf, mae sesiynau o bob math wedi cymryd lle ac fe welwch fwy o'u hanes yn y newyddlen hon. Gai ddiolch yn fawr iawn i holl staff GISDA am eu cefnogaeth ers dechrau'r swydd, mae yma dîm o staff brwdfrydig iawn sydd yn gweithio'n galed dros hawliau'r bobol ifanc. Edrychwn ymlaen gyda'n gilydd am flwyddyn heriol ond cyffrous yn 2012.

Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Sian Elen Tomos
Prif Weithredwr

Gair o Ddiolch

Hoffwn ddiolch yn fawr i holl staff y Cwmni am ei gwaith diflino drwy'r flwyddyn. Mae hi wedi bod yn flwyddyn emosiynol i staff gyda phenodiad y Prif Weithredwr newydd ddechrau mis Medi yn dilyn ymddeoliad Mair Richards ar ôl 21 mlynedd o wasanaeth I GISDA. Hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus i Mair Richards a diolch iddi am ei gwasanaeth dros y blynyddoedd.
Diolch hefyd i'r staff, cyd -aelodau'r Bwrdd Rheoli, y bobol ifanc am eu cydweithrediad drwy gydol 2011, i'n harianwyr ac i'n cydweithwyr mewn asiantaethau eraill. Bu 2011 yn flwyddyn llwyddiannus ac edrychwn ymlaen fel cwmni am ragor o ddatblygiadau cyffrous yn 2012.
Diolch i chi gyd am gymryd diddordeb yng ngwaith GISDA. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth. Dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd yn 2012

Tudor Owen
Cadeirydd

Prif Digwyddiadau I ddod

Perfformiad Theatr Fforwm yng Nghaernarfon 21ain Rhagfyr 2011

Sion Corn yn y groto ym mharti plant 12 Rhagfyr—Ho ho ho!

GWAITH DA GISDA

GISDA Gwneud Gwahaniaeth— Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2011

Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol GISDA eleni cawsom achos i ddathlu ddwywaith wrth i ni lansio prosiect cyffroes newydd - Agor Drysau, a chyflwyno tystysgrifau i'r bobl ifanc. Bu nifer o bobl ifanc yn llwyddiannus wrth ennill cymwysterau drwy Agored Cymru, mewn sgiliau byw yn annibynnol a chelf greadigol wedi eu hachredu. Cyflwynwyd y tystysgrifau iddynt gan Mair Richards, Prif Weithredwr GISDA ac Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd.

Mae Prosiect Agor Drysau yn rhaglen addysg amgen sydd yn cael ei redeg gan GISDA ac wedi ei ariannu gan y Loteri. Mae'r prosiect yn rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth ddatblygu sgiliau byw yn annibynnol a chael achrediad am eu gwaith drwy'r corff dyfarnu - Agored Cymru. Drwy'r prosiect newydd yma mae GISDA yn medru cydnabod a ffurfioli'r gefnogaeth y mae defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gan eu gweithwyr allweddol dynodedig. Golyga hyn fod y bobl ifanc yn gadael GISDA gyda sgiliau i fyw yn annibynnol a chydnabyddiaeth ffurfiol eu bod wedi gweithio drwy gynllun gefnogaeth GISDA yn llwyddiannus.

Wrth dderbyn ei thystysgrif dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth " *Mae cael rhywbeth ar bapur yn rhoi gwell syniad i bobl eraill o'r gwaith wnes i tra efo GISDA. Wrth weithio trwy'r unedau dwi di dysgu y sgiliau fydd angen arnaf i fyw yn annibynnol ac mae yn help*"

GWAITH DA GISDA

Yn y cyfarfod blynyddol cafodd pobl ifanc dystysgrifau mewn 'celf greadigol' a 'chyllido a threfnu arian'; bydd y criw yn mynd ymlaen i ennill unedau mewn 'cadw tenantiaeth' a 'coginio'. Mae GISDA yn gweld y sgiliau yma yn greiddiol i'r gefnogaeth y maent yn ei dderbyn. Yn ogystal â hyn mae'r prosiect newydd yma yn edrych ar weithgareddau sydd yn gallu codi hyder, gwella sgiliau cyfathrebu cyfleoedd gwirfoddoli, agoriadau yn y farchnad waith a gweithgareddau amrywiol. Ers cychwyn y prosiect mae Agor Drysau wedi trefnu sesiynau ffotograffiaeth, cerddoriaeth, celf, chwaraeon, dramâu, garddio i enwi dim ond rhai.

Yng Ngorffennaf eleni bu Prosiect Agor Drysau yn llwyddiannus yn denu grant Gwirvol, pwrpas y grant oedd cael pobl ifanc i chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli o fewn eu cymunedau. Wedi ymgynghoriad, penderfynwyd mynd ati i wella awyrgylch y parc sglefrio yng Nghaernarfon. Drwy wirfoddoli am ddau ddiwrnod hefo arbenigwr celf stryd fe gafodd y criw ifanc y cyfle i greu murlun gwreiddiol yn y parc. Yn ystod y cyfarfod blynyddol cafodd y grŵp gydnabyddiaeth o'r gwaith yma gydag achrediadau mewn 'Creu celf stryd' gan Agored Cymru. Cyflwynwyd y tystysgrifau yma yn y cyfarfod blynyddol hefyd.

Ers y cyfarfod blynyddol ym mis Medi mae'r prosiect Agor Drysau wedi gweld 16 o bobl ifanc yn cwblhau dros 30 unedau mewn gwahanol weithgareddau, o 'cynnal tenantiaeth' i 'creu poster' a 'creu mosaig'. Mae'n debygol fydd yna ddathliad noson gwobrwyo arall ar y gorwel!
Yn siarad am y prosiect unigryw yma dywedodd Liam Roberts *"Dwi 'di dysgu gymaint o'r prosiect yma ac roedd creu'r murlun yn y parc yn grêt. Fedrai ddim disgwyl i wneud mwy."*
Mae prosiect Agor Drysau wedi ei ariannu gan Gronfa'r Loteri Fawr tan 2014, ac yn barod ar ôl 6 mis mae GISDA yn gweld y gwahaniaeth mae'r prosiect addysg amgen yma yn wneud i fywydau pobl ifanc.

GWAITH DA GISDA

Prosiect Graffiti

Dros gyfnod o ddeuddydd ym Mis Medi cafodd defnyddwyr gwasanaeth GISDA y cyfle i wirfoddoli i wneud gwelliant i'w cymuned mewn prosiect cyffroes a'r grŵp yn cael achrediadau am eu gwaith caled.

Drwy arwain ar gynllunio prosiect eu hunain fe benderfynodd y grŵp llunio cais am grant GWIRVOL sydd yn cael ei weinyddu gan Mantell Gwynedd, am prosiect am ddau ddiwrnod o weithdai dan arweiniad yr arbenigwr artist celf stryd, Andy Birch.

Fel rhan o'r cais roedd y grŵp yn cael diwrnod o hyfforddiant yn ogystal â diwrnod o ymarfer eu sgiliau newydd yn addurno wal ym mharc sglefrio Caernarfon. Erbyn hyn mae murlun o waith y grŵp yn edrych dros y parc sydd yn creu awyrgylch hwylus a lliwgar i'r ardal. Yn ogystal â gwirfoddoli fe lwyddodd bob aelod o'r grŵp gael achrediad lefel 1 gan Agored Cymru mewn gwaith 'celf stryd' wrth gwblhau'r prosiect.

Cafodd y grŵp gymaint o hwyl yn creu murlun gwreiddiol ar wal y parc ac fe ofynnwyd i Andy ddod yn ôl am ddiwrnod ychwanegol i greu murlun ar wal hostel Hafan yng Nghaernarfon.

Mae Andy Birch hefyd wedi gweithio gyda ddefnyddwyr gwasanaeth GISDA i addurno tu mewn i hostel Llys meddyg ym Mlaenau Ffestiniog. Bydd y grŵp yno hefyd yn derbyn achrediadau gan Agored Cymru am ei gwaith.

Cafodd gwaith y grŵp ei harddangos fel rhan o gyfarfod blynyddol GISDA yn ddiweddar ac fe brofodd y prosiect i fod yn boblogaidd gyda'r bobl ifanc yn ogystal ar bobl ifanc sydd eisoes wedi defnyddio'r parc.

GWAITH DA GISDA

Gweithdai Mosaig

Ers cychwyn mis Gorffennaf mae pobl ifanc GISDA wedi bod yn gweithio ar ddarnau unigol o waith celf fosaig mewn ymdrech i ddysgu sgiliau newydd i allu addurno darn o wal allanol swyddfa GISDA.

O dan arweiniad yr arbenigwr, Wendy Denagelis, mae sesiynau wythnosol wedi bod yn cymryd lle yng nghanolfan Tan-y-Maen, Blaenau Ffestiniog. Mae'r bobl ifanc wedi bod yn gweithio'n galed ar ddarnau unigol o fosaig, a'r gobaith ydi bydd y bobl ifanc yn dysgu sut i greu, dylunio a chysodi darnau gwreiddiol o waith celf.

Wrth weithio'n galed ar eu gwaith, mae adran addysgiadol GISDA o'r enw Agor Drysau yn achredu'r gwaith. Bydd bob person ifanc sydd wedi mynychu'r sesiynau yn cael tystysgrif 'Creu mosaig uniongyrchol lefel 1' gan Agored Cymru.

Tra mae'r gwaith caled yn parhau ar waith unigol yn y sesiynau wythnosol, mae gwaith yn cael ei wneud i ddylunio darn mwy ar wal swyddfa GISDA ym Mlaenau Ffestiniog. Mae rhodd hael o ddeunydd wedi ei dderbyn gan Lechwedd i addurno'r wal ar obaith ydi bydd busnesau lleol eraill yn gweld budd o gyfrannu tuag at y mosaig unigryw.

Mae'r sesiynau wedi bod yn rhai llwyddiannus iawn a'r adborth wedi bod yn galonogol. Yn ogystal ag ennill achrediadau a dysgu sgiliau newydd mae'r sesiynau yn amlwg yn cael effaith ar hunain parch, hyder a sgiliau cyfathrebu'r bobl ifanc.

Tudalen Rhieni Ifanc

Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth GISDA yn rhieni ifanc. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae rhai o staff GISDA wedi bod yn brysur yn sefydlu grwp cefnogi rhieni er mwyn sicrhau bod digon o gyfle iddynt a'u plant integreiddio a chael cefnogaeth. Mae'r rhieni yn cwrdd pob wythnos yng Nghaernarfon ac mae eu plant yn mynychu gyda nhw. Maent yn cwrdd mewn awyrgylch anffurfiol a tra bod y plant yn cael cyfle i chwarae yn y tŷ bach twt mae'r rhieni yn gweithio ar unedau craidd a chael Cymwysterau am eu gwaith. Hyd yma rydym yn cael adborth cadarnhaol gan y rhieni ac maent wedi dod yn ffrindiau da gyda'i gilydd ac yn gallu rhannu syniadau a phrofiadau.

Er mwyn ffurfioli'r grŵp penderfynwyd gofyn wrthynt enwi'r grŵp. Bydd penderfyniad ar yr enw yn cael ei wneud cyn diwedd y flwyddyn.

Ein dyhead fyddai datblygu'r un model yn ardal Dwyfor a Meirionnydd i rieni ifanc yn y dyfodol.

Trip Teulu i Betws y Coed

Mae rhai o rieni ifanc GISDA wedi bod yn mynychu sesiynau unedau craidd yn rheolaidd gyda'r prosiect Agor Drysau gan gwblhau llyfrynnau gwaith ar Gyllidebu a Chadw tenantiaeth.

Maent wedi bod yn mynychu'n wythnosol a thrwy hyn wedi meithrin perthynas agos a chyfeillgar gyda'i gilydd. Gan fod y rhieni wedi dangos eu hymrwymiad ac wedi gweithio'n galed ar yr unedau teimlwyd y byddai trip teulu gyda'r plant yn addas i'w llongyfarch am eu gwaith. Roedd hwn yn gyfle iddynt ymweld ag un o bentrefi Cymreig poblogaidd iawn sydd yn enwog am yr harddwch naturiol, siopau, gwestai a bwytai.



Roedd yn gyfle hefyd iddynt ymlacio a chael bod mewn awyrgylch gwahanol. Rydym yn gobeithio bod trip fel hwn yn rhoi cyfle i'r rhieni weld llefydd gwahanol ac yn eu paratoi i fod yn hyderus i fentro tu hwn i'w cynefin.

YMWELIAD SIÔN CORN Â GISDA

Daeth Siôn Corn yr holl ffordd o Wlad yr Ia i ymweld â phlant y rhieni ifanc GISDA. Roedd y plant wedi'u syfrdanu ac wedi gwirioni gweld Siôn Corn.

Derbyniodd pob plentyn anrheg gan Siôn Corn. Roedd rhai o bobol ifanc GISDA wedi treulio amser yn addurno groto arbennig iawn ar gyfer ei ymweliad.

Roedd y plant wrth eu bodd ymhlith ei gilydd yn chwarae yn dŷ bach yn Stryd y Plas.

Roedd hi'n gyfle hefyd i'r rhieni gael ymlacio a sgwrsio gyda'i gilydd.

Roedd staff GISDA wedi paratoi bwyd ar gyfer y parti ac roedd hi'n brynhawn llwyddiannus iawn. Ffarweliodd pawb â Siôn Corn.

NEWYDDION STAFF

Ers ein rhifyn diwethaf rydym wedi dweud ffarwel trist iawn wrth Mair Richards fel Prif Weithredwr GISDA. Roeddem i gyd yn drist i'w gweld yn gadael ond dymunwn ymddeoliad hapus, iach a haeddiannol.

Rydym wedi ffarwelio â Nia sydd yn ymuno ag Arch Initiatives. Byddem hefyd yn ffarwelio â Nerys y mis yma, sydd hefyd yn ymuno ag Arch Initiatives. Mae Nerys wedi bod gyda ni ers chwe blynedd. Dymunwn y gorau i'r ddwy ohonynt am y dyfodol.

Llongyfarchiadau i Elin ar ei secondiad i swydd Rheolwr Prosiect a hefyd i Rhea ar ei secondiad fel Uwch Weithiwr Allweddol, y ddwy yn seiliedig yng Ngogledd Gwynedd.

Rydym yn croesawu Caj yn ôl i Dde Gwynedd ar ôl cyfnod mamolaeth.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddiwrth pawb yn GISDA!

www.gisda.co.uk

gisdacyf

@gisdacyf